# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dewi Wyn Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679233** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol ar Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad Statudol ar Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn rhoi cyfle i'r Cabinet ddarparu mewnbwn a sicrhau cytundeb i ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghorol.

### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal.

3.2. Fel y byddwch yn ymwybodol mae Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn yn cynnwys cynrychiolaeth ar y lefel uchaf o'r prif gyrff cyhoeddus yn yr ardal. Ymysg yr aelodaeth statudol mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

3.3. Rhan gyntaf y gwaith o lunio'r Cynllun Llesiant oedd cynnal asesiad o lesiant lleol gan wneud gwaith ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, fe gynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn er mwyn casglu mwy o wybodaeth a rhoi cyfle i drigolion leisio barn.

3.4. Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiadau o Lesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ddwy sir wedi eu rhannu yn 14 o ardaloedd llai (8 yng Ngwynedd a 6 ym Môn).

3.5. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd 9 prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan. Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach yn ystod mis Awst 2017 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn trafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd.

3.6. Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth uchod gan y Bwrdd wrth lunio'r Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer Gwynedd a Môn. Ceir copi o'r ddogfen hon yn **Atodiad 1.**

3.7. Mae Cyngor Gwynedd yn un o bartneriaid statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (ynghyd â Chyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai un o'r partneriaid ydym ni fel Cyngor ac mai penderfyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd cynnwys y cynllun terfynol.

3.8. Yn y cynllun fe amlinellir sut mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion trwy gydweithio er mwyn cyflawni ar gyfer yr ardal gyfan.

3.9. Mae'r **Amcanion Llesiant** wedi eu llunio yn dilyn dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill e.e. Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ym maes iechyd a gofal.

3.10. Ceir 2 amcan llesiant gyda 6 o flaenoriaethau gaiff eu targedu er mwyn gwireddu'r amcanion. Nodir bod y blaenoriaethau hyn wedi eu selio ar y negeseuon a gafodd eu hamlygu fel rhan o'r Asesiad Llesiant.

1. **Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor**
   - Yr iaith Gymraeg
   - Cartrefi ar gyfer bobl leol
   - Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
   - Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau

2. **Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon byw da**
   - Iechyd a gofal oedolion
   - Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc

3.11 Cred y Bwrdd fod y rhain yn feysydd y gellir cydweithio yn well ynddynt, mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

3.12 Fel rhan o baratoi'r ymateb ar ran y Cyngor gwahoddwyd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, a'r Penaethiaid Adrannau i gyflwyno sylwadau ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn yr ymateb drafft i'r cwestiynau o fewn yr ymgynghoriad sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor. Ceir copi o'r ymateb yn **Atodiad 2.**

3.13 Yn ogystal, bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau graffu cynnwys y Cynllun Llesiant Drafft yn ei gyfarfod ar y 22ain o Chwefror ac mae'r prif sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn yr ymateb.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Bydd y cyfnod o dri mis o ymgynghori statudol yn dod i ben ar y 30ain o Fawrth. Yn dilyn hyn bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn llunio Cynllun Llesiant terfynol.

4.2. Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r fersiwn derfynol bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflwyno i Fyrddau/Cyngor Llawn yr aelodau statudol am gymeradwyaeth cyn ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

4.3. Yn achos Cyngor Gwynedd bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fai.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Dim

5.2. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'n ofyn statudol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi Cynllun Llesiant Lleol sydd yn nodi amcanion llesiant lleol a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Bydd cymeradwyo'r cynllun terfynol yn fater i'r Cyngor llawn. Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ymgynghorai ffurfiol o fewn y broses ac mae angen i'w sylwadau gael eu cyfleu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r Cynllun Llesiant yn anelu i wneud gwahaniaeth drwy gydweithio, gosod blaenoriaethau, a chydlynu ymdrechion. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad gerbron yn rhagdybio cymeradwyo unrhyw adnoddau ychwanegol. Disgwylir i unrhyw adrannau perthnasol o'r Cyngor gyflwyno cais ar wahân pe bai angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant.

### Atodiadau

**Atodiad 1** – Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (Drafft)
**Atodiad 2** – Ymateb Cyngor Gwynedd i Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn (Drafft)